

Y Llyfr gan Robert Arnold

Beibl y Teulu. Mawr, mewn lledr brown, bellach wedi cracio ac wedi treulio. Roedd e fel hen ffrind iddo fe: ffrind braidd yn llym ond cariadus.

Cafodd lawer o ddigwyddiadau teuluol eu cofnodi ar y tudalennau sbâr. Yr achlysuron pwysig yn ein bywydau ni i gyd. Genedigaethau, bedyddiadau, penblwyddi, dathliadau, ac ym Meibl y Teulu - yr enwau teuluol cyfarwydd sy'n dychwelyd, wrth gwrs. A phriodasau. Ei un ef ei hun yn gynwysiedig. Ef a'i wraig, Llinos. A marwolaethau. Gan gynnwys un Llinos.

Cofiodd e am yr amseroedd da, yn naturiol. Eu rhamant cynnar, eu gwyliau, eu plant, eu cartref cyntaf. Er iddo fe geisio'u hanghofio, cofiodd e'r amseroedd drwg hefyd. Y nosweithiau tywyll, y dyddiau hir, ei salwch hir, poenus. Wel, diolch byth, roedd rheiny i gyd wedi'u gorffen.

Dywedodd pobl wrtho y byddai amser yn meddalu'i boen ei hun. Ond roedd e'n sownd yn ei fyd trist, gydag atgofion tristach fyth. Allai e ddim byw hebddi hi. Roedd un peth nawr ar ôl iddo fe ei wneud.

Edrychodd e ar y calendar. Gyda llaw gyson, ysgrifennodd e'r dyddiad yn y Beibl, gyda'i enw llawn, a dau air syml, "Bu Farw". Wedyn, gadawodd e'r tŷ, a cherddodd yn hapus iawn i gyferiad yr afon.